**EITEM AR YR AGENDA: 8**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**20 Rhagfyr 2010**

**ALLDRO AMCANOL 2010-2011**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Diben yr Adroddiad

1 Diben yr adroddiad yw cyflwyno amcangyfrif i'r Aelodau o'r alldro amcanol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010-2011.

## Cyflwyniad

2 Caiff gwariant yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n agos gan staff y Gwasanaeth Tân ac Achub. Tynnir sylw at unrhyw amrywiadau neu amrywiadau disgwyliedig mor fuan â phosibl fel bod modd sefydlu mesurau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw risg ariannol i'r Awdurdod. Ar hyn o bryd mae'n ymddangos y bydd tanwariant o £105,123. Mae dadansoddiad manwl yn Atodiad A, a dangosir unrhyw danwariant ag arwydd minws (-).

3 Mae'r tanwariant amcanol yn cael ei reoli yn ystod y flwyddyn ac efallai bydd yn ffurfio rhan o'r gronfa wrth gefn ar gyfer 2011/12 er mwyn helpu i atgyfnerthu cyllideb flwyddyn nesaf. Argymhellir felly mai dim ond nodi'r tanwariant y dylai'r Aelodau ei wneud.

## Amrywiant i'r Gyllideb

4 Cyflogau yw cyfradd helaeth o wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub ac mae rhagolygon y bydd tanwariant eleni. Bydd gwariant ar ddiffoddwyr tân llawn amser yn fwy na'r gyllideb wreiddiol oherwydd fod y sefydliad ar hyn o bryd yn fwy na'r amcangyfrif gwreiddiol. Hefyd doedd taliadau lwfansau cyfrifoldebau ychwanegol ddim wedi eu cynnwys yn y gyllideb wreiddiol. Mae'r sefyllfa bresennol oherwydd oedi rhwng trosglwyddo cyllideb i ddiogelwch cymunedol i ariannu'r swyddi Diogelwch Tân Cymunedol ychwanegol a'r

gostyngiad yn nifer y swyddi peiriannau ac ysgol ag esgynlawr drwy wastraff naturiol. Bydd tanwariant yng nghyllideb y staff cefnogol gan fod rhai o'r swyddi diogelwch tân cymunedol heb eu llenwi.

5 Mae'r tanwariant o £83,000 ar ddiffoddwyr tân rhan amser yn eithaf bach. Dylai'r Aelodau gofio fod y canlyniad yn seiliedig ar lefelau gweithgarwch presennol sy'n gymharol isel. Petai nifer o ddigwyddiadau mawr yn ystod y tri mis nesaf yna gallai'r tanwariant newid yn rhwydd i fod yn ddiffyg cyllidebol mawr.

6 Bydd gorwariant yn y gronfa pensiynau o ganlyniad i ymddeoliadau oherwydd salwch yn ystod y flwyddyn. Nid oedd y rhain yn rhan o'r amcangyfrifon gwreiddiol ac nid ydynt wedi eu hariannu drwy'r cyfrif pensiynau.

7 Mae'r gost ychwanegol dan y pennawd Eiddo, Atgyweirio a Chynnal a Chadw oherwydd gorfod llogi rhagor o le ar gyfer yr Adran Fflyd oherwydd eu bod yn fyr o gyfleusterau a oedd yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth.

8 Amcangyfrifir y bydd tanwariant dan y pennawd costau Cyfathrebu a Chyfrifiaduron oherwydd oedi yng nghyfnod 2 o'r gwaith datblygu sydd wedi golygu arbedion yn ystod y flwyddyn gyfredol.

9 Ni chyflawnir yr incwm a amcangyfrifwyd ar gyfer llogau oherwydd eu bod yn is nag erioed. Ond mae hyn wedi'i osod yn erbyn arbedion ar Ariannu Cyfalaf oherwydd ad-drefnu'r rhaglen gyfalaf yn 2009/2010 ac arbedion ar dalu llogau ar fenthyciadau sy'n aeddfedu.

10 Incwm Cynllunio ar Gyfer Argyfwng yw ad-daliadau gan y Cynulliad ar gyfer prosiectau arbennig. Gostyngodd hyn oherwydd newidiadau o fewn ariannu'r rhaglen Dimensiwn Newydd.

11 Bu gostyngiad yn yr incwm a enillir o gyrsiau hyfforddiant allanol yn enwedig diogelwch tân masnachol. Penderfynwyd diddymu'r gwasanaeth hwn oherwydd gellid defnyddio'r adnoddau yn fwy effeithiol i ddarparu'r neges diogelwch tân cymunedol i'r gymuned busnes drwyddi draw.

**Argymhelliad**

12 Bod yr Aelodau'n nodi'r tanwariant a amcangyfrifwyd.